# Creawdwyr Ifainc

Strategaeth ar gyfer Plant, Pobl Ifainc a'r Celfyddydau



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cwmni Theatr yr Urdd © Urdd Gobaith Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.


# Rhagair

## Grym y celfyddydau

I ni does dim byd yn bwysicach na magu diddordeb ysol ac ymarferol yn y celfyddydau ymysg ein plant a'n pobl ifainc.

Gall y celfyddydau ysbrydoli, cyffroi a sbarduno dychymyg plant a phobl ifainc gan agor y drws ar gyfleoedd newydd i fynegi syniadau a theimladau. Mae hyn, yn ei dro, yn porthi celfyddydau Cymru, gan ailddiffinio diwylliant ein gwlad a'i yrru ar hyd ffyrdd newydd ac annisgwyl. Artistiaid a chelfgarwyr y dyfodol yw'n plant.

Gall y celfyddydau feithrin gallu pobl ifainc i gwestiynu a chysylltu pethau, gan fagu meddwl miniog ac annibynnol. Gallant ysbrydoli pobl ifainc fagu roi uchelgais a hyder o'r newydd ynddynt, gan herio'r tlodi ymarferol, addysgiadol ac ysbrydol sy'n deillio o gyrhaeddiad addysgol gwael. Gall y celfyddydau ddarparu'r allwedd i barhau i addysg bellach ac uwch, a chael swydd yn y pen-draw.



*Ar eu ffordd i'r ysgol ddawns,* Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (llun: Roy Campbell Moore)

## Mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt

Mae canu mewn côr, ysgrifennu cerdd, mwynhau egni dawns neu addasu ffoto i'w rannu gyda chyfeillion, oll yn brofiadau pwysig a bythgofiadwy i ni.

Gall cymryd rhan yn y celfyddydau arwain at bob math o fanteision. Pleser o'r mwyaf yw dysgu dawnsio, canu, canu offeryn, troi syniadau'n gerddi, straeon a lluniau. Trwy’r celfyddydau, gallwn fagu’r hyder i weithio gyda phobl eraill, rhannu ein breuddwydion a ffrwyth ein dychymyg, dod i adnabod ein hunain a'n cymunedau.

Gall mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau wneud gwahaniaeth aruthrol i fywydau pobl, yn enwedig plant a phobl ifainc. Mae ein hymdrechion i sicrhau bod plant a phobl ifainc ledled Cymru yn cael mwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn agwedd bwysig iawn o'n gwaith.

## Ffordd strategol newydd o weithredu

Rydym yn ariannu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer pobl ifainc ar hyn o bryd, ac ni fydd hyn yn newid.

Ond bydd ffocws deublyg i’n gwaith yn y dyfodol: sef cefnogi ein pobl ifainc i ddatblygu eu doniau creadigol; a chreu amgylchedd lle gellir adnabod y ddawn honno, ei hysbrydoli, ei meithrin a'i dathlu.

## Creawdwyr Ifainc yw enw'r strategaeth

Mae hyn yn adlewyrchu’r genhadaeth sydd wrth ei gwraidd – sef buddsoddi mewn gweithgareddau a fydd yn ysbrydoli plant i fod yn greadigol, yn eu herio i anelu’n uwch ac yn eu hysbrydoli i ehangu eu gorwelion celfyddydol.

Rydym am weld pwyslais mwy ar bobl ifainc yn dysgu drwy brofiadau ymarferol, ac yn cael eu hysbrydoli gan gyfleoedd i gydweithio â'n hartistiaid a'n sefydliadau proffesiynol.

Hoffem weld cynifer o bobl ifainc Cymru ag sy'n bosibl yn credu bod cyfleoedd ar gael iddynt wneud eu gorau glas, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf, a chan ddathlu ac arddangos eu doniau creadigol. Mae ein plant yn haeddu – ac yn disgwyl - hyn oll, a dim llai.



Dai Smith
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru




Gweithdy *Operation Zulu*, Plant y Cymoedd. Rhan o'r Olympiad Diwylliannol yng Nghymru

## Ein prif gynigion i'w rhoi ar waith:

- **Gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch** – gan eu gwneud yn rhatach i groestoriad ehangach o'r boblogaeth fanteisio arnynt. Byddwn yn cydweithio â'n rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau refeniw i dorri tir newydd wrth ddatblygu ffyrdd newydd o sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol ar gael yn rhad ac am ddim ac am bris gostyngedig i deuluoedd ar incwm isel

- **Herio'r rhwystrau i gyfranogi** – byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n estyn allan at y bobl hynny sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r celfyddydau a byd addysg y brif ffrwd drwy:

  - gweithredu cam 2 o ***Gyrraedd y Nod***, sef partneriaeth â Llywodraeth Cymru a ariennir gan Raglen Gydgyfeiriol Ewrop. Ei nod yw ymgysylltu phobl ifainc sy'n wynebu posibilrwydd go iawn o fethu â gwireddu eu potensial yn eu hysgolion, eu colegau a'u gweithleoedd

  - ehangu **Celfyddydau Sblash Cymru**, sef rhaglen sy'n targedu pobl ifainc bregus a'r rhai sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig

- **Celfyddydau Cyfareddol** – byddwn yn datblygu, yn ariannu ac yn hyrwyddo gweithgareddau o'r ansawdd uchaf ym myd y celfyddydau ar gyfer pobl ifainc a gyda nhw

- **Celfyddydau mewn Ysgolion** – byddwn yn datblygu Concordat newydd ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau gwella ymarferol ym maes y celfyddydau mewn ysgolion. Ein prosiect cyntaf yw lansio **Camau Celf**, cynllun sy'n cydnabod ac yn  cymeradwyo gweithgareddau o safon mewn ysgolion

- **Datblygu talent ifanc** – byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n meithrin ac yn datblygu sgiliau plant fel:

  - ariannu ensembles cerdd, theatr a dawns **Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru** er mwyn cynnal rhaglen o weithdai, preswylfeydd a pherfformiadau sy'n galluogi plant i ddatblygu eu doniau trwy gydweithio â'u cyfoedion ac â phobl broffesiynol sy'n fawr eu bri ym maes y celfyddydau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol

  - cynorthwyo **Llenyddiaeth Cymru** i ddatblygu Sgwadiau Sgwennu rhanbarthol ledled Cymru

  - ehangu'r **Criw Celf**, sef rhaglen beilot lwyddiannus ar y cyd â Chyngor Gwynedd sy'n darparu cyfleoedd i artistiaid gweledol ifainc dawnus y tu allan i'r ysgol, i gwmpasu Cymru gyfan



Cinetig/Prosiect y Priordy, *Cyrraedd y Nod*

- **Lleoedd i Greu** – archwiliwn ddichonoldeb buddsoddi arian cyfalaf celfyddydol y Loteri i ddatblygu lleoedd newydd ac adfywio lleoedd cyfredol i roi cyfle i greadigrwydd pobl ifainc

- **Uchelgais creadigol** – byddwn yn cefnogi mentrau sy'n cynnig cymorth ymarferol i'r bobl hynny sy'n dilyn gyrfaoedd proffesiynol ym maes y celfyddydau a'r byd creadigol. Er enghraifft:

    - gweithio gyda **Sgiliau Diwylliannol Creadigol**, y sefydliadau a ariannwn ac eraill i ddatblygu prentisiaethau a rhaglenni eraill sy'n cynnig cam cyntaf i bobl ifainc ymuno â'r gweithlu celfyddydol
    - datblygu perthynas waith mwy cynhyrchiol â **Gyrfa Cymru** er mwyn sicrhau bod ein pobl ifainc yn cael cyngor priodol ynglŷn â dewis dilyn gyrfa yn y diwydiannau celfyddydol a chreadigol

- **Gweithio mewn Partneriaeth** – byddwn yn meithrin cysylltiadau gwaith gwell ag asiantaethau a sefydliadau a all ein helpu ni i gyflawni ein strategaeth

- **Lleisiau Pobl Ifainc** – byddwn yn cynnwys plant a phobl ifainc yn y broses o fonitro, adolygu a blaenoriaethu'r gwaith yr ydym yn ei gefnogi a'i gyflawni

# 1 Cefndir

**Dechreuodd ein siwrnai yn 2000 wrth gyhoeddi Y Celfyddydau a Phobl Ifainc Cymru, ein strategaeth gyntaf erioed ar gyfer y celfyddydau a phobl ifainc.**

Roedd hyn yn gam mawr i ni. Roedd y strategaeth yn bellgyrhaeddol, gan anelu at effeithio ar bob agwedd ar fywyd y bobl ifainc, yn yr ysgol a'r tu hwnt, mewn clybiau ieuenctid, trwy'r sector gwirfoddol, trwy waith yr holl sefydliadau a ariennwn, a thrwy waith yr awdurdodau lleol.

**Cyflawnwyd sawl peth o bwys.**

Er enghraifft:

- **sefydliadau refeniw** – mae'r rhan fwyaf o 'bortffolio' Cyngor y Celfyddydau o sefydliadau refeniw yn darparu gwaith ar gyfer pobl ifainc a gyda nhw. Mae gweithgareddau di-ri yn digwydd pob dydd – o opera i gerddoriaeth gymunedol, o wneud crefftau i wneud ffilmiau, ymweliadau addysgiadol â theatrau, orielau, canolfannau'r celfyddydau a gweithgareddau'r celfyddydau mewn ysgolion
- mae'r **Urdd** yn dal i ffynnu gan ddenu miloedd o bobl ifainc o bob cwr o Gymru i'w gweithgareddau lleol a chenedlaethol. Gyda'n cymorth ni, a diolch i gyllid diweddar gan Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth Prydain, adfywiwyd Theatr Ieuenctid yr Urdd ac mae hi bellach yn rhan o raglen flynyddol yr Urdd
- mae **Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru** wedi tyfu dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae'n cynnig amrywiaeth ehangach o weithgareddau o safon ym maes cerddoriaeth, theatr a dawns, yn lleol ac yn genedlaethol
- cynigir **dawns** i ragor o bobl ifainc mewn ysgolion diolch i raglen Addysg Gorfforol mewn Ysgolion Chwaraeon Cymru mewn cydweithrediad â nifer o'n sefydliadau dawns cymunedol
- ehangwyd ein cynllun, **Noson Allan** i gynnwys y rhaglen Hyrwyddwyr Ifainc lwyddiannus. Cynllun yw hwn sy'n galluogi grwpiau o bobl ifainc i drefnu perfformiadau proffesiynol yn eu cymunedau eu hunain
- diolch i raglen **Engage Cymru** mae rhagor o bobl ifainc wedi cael cyfleoedd i brofi a mwynhau gwaith artistiaid gweledol ac orielau ledled Cymru
- anogwyd a chefnogwyd cenhedlaeth newydd o dalent lenyddol drwy Sgwadiau Sgwennu Pobl Ifainc **Llenyddiaeth Cymru**. Datblygwyd y rhain mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol ac maent yn rhoi cyfle i bobl ifainc dawnus weithio gyda beirdd, awduron a dramodwyr proffesiynol
- mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** a'r **Clybiau Ffermwyr Ifainc** – y ddau'n bartneriaid gwreiddiol yn Nhasglu'r Celfyddydau a Phobl Ifainc - wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc i ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau celfyddydol



*Visiting Katt and Fredda* gan Ingeborg von Zadow, Theatr Iolo
(llun: Kirsten McTernan)

**Byddwn yn sicrhau hefyd bod cyfleoedd ar gael i'r bobl ifainc hynny na chafodd yr un cyfleoedd ag eraill i fwynhau'r celfyddydau.**

Swyddogaeth allweddol i'r Cyngor yw archwilio meysydd llai hysbys gan nodi'r rhwystrau i gyfranogi a dangos sut gall y celfyddydau estyn allan at gynulleidfaoedd newydd a gwahanol. Gallai cymryd rhan yn y celfyddydau wella bywydau llawer o bobl ifainc, pe baent yn cael cyfle i wneud hynny. Dyna pam ein bod ni wedi dewis ariannu ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, gan fuddsoddi mewn prosiectau sy'n targedu rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

**Rydym yn buddsoddi hefyd mewn mentrau penodol sy'n annog pobl mewn cymunedau lleol i ddwysau eu hymgysylltiad a'u creadigrwydd.**

Rydym yn awyddus i weld pobl fel mwy na dim ond 'defnyddwyr' goddefol gweithgareddau celfyddydol. Mae tystiolaeth annibynnol wedi dangos bod celfyddydau cymunedol sydd wedi eu targedu a'u cyflwyno'n broffesiynol o dan ein strategaeth datblygu ar gyfer y celfyddydau cymunedol, yn helpu unigolion a chymunedau i gael dweud eu dweud. Gall y gweithgarwch hwn agor y drws ar ddimensiwn newydd o brofiadau na fyddai wedi bod ar gael fel arall. Gwaith sy'n ymrymuso ac yn cysylltu pobl yw hwn; gwaith sy'n unigryw, yn ddilys ac yn cyfoethogi bywydau; gwaith sydd, ar ei orau, yn wirioneddol drawsnewidiol.

Er enghraifft:

- rydym wedi ariannu amrywiaeth o brosiectau i ddod ag artistiaid proffesiynol i mewn ysgolion, ac rydym wedi helpu i ariannu sefydliad prosiectau ieuenctid mewn trefi a phentrefi

- rhaglen ymgyfranogol a gynhaliwn ar y cyd â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yw Celfyddydau Sblash Cymru. Ariennir y rhaglen drwy Gymru'n Un ac mae'n darparu gweithgareddau celfyddydol y tu hwnt i oriau ysgol ar gyfer pobl ifainc sy'n rhan o raglen Sblash y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym wedi ariannu tua 18 o brosiectau Sblash y flwyddyn ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r rhain gyda phobl ifainc mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, (gan gynnwys Parc Caia, Wrecsam, Trelái a Llanrhymni, Glan-y-mor Tyisha, Treforys a Pharc Sgeti)

- trwy ein Partneriaeth Ieuenctid Strategol Gelfyddydol buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu nifer y gweithgareddau celfyddydol mewn cymunedau lleol neu eu trefnu'n well

- rydym yn bartner ym mhrosiect *Cyrraedd y Nod* yr Adran Addysg ac Ysgolion, a ariennir drwy gronfa Gymdeithasol Ewrop. Project yw hwn sy'n targedu pobl ifainc nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth. Trwy ein rhaglen o weithgareddau celfyddydol, rhoesom gyllid i 41 o sefydliadau (mor amrywiol â phartneriaethau awdurdodau lleol i asiantaethau gwirfoddol bychain) i gynnal mentrau celfyddydol yng ngham cyntaf y rhaglen. Eu nod oedd gweithio gyda phobl ifainc i'w helpu i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a dinasyddiaeth weithredol, gyda golwg ddychwelyd i gyflogaeth yn y pen-draw



*Broken Peace,* Theatr Parc a Dâr, Treorci
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
(llun: Darren Griffiths-Warner)

- rydym yn rheoli rhaglen bwysig o weithgareddau ym maes y celfyddydau sy'n gysylltiedig â'r Olympiad Diwylliannol yng Nghymru a ariennir gan Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth Prydain. Rhwng nawr a diwedd 2012 bydd ein pum sefydliad partner yn cyflawni amrywiaeth o brosiectau cyffrous ar gyfer miloedd o bobl ifainc ledled Cymru.

## Un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol i ymgysylltu â'r celfyddydau yw diffyg cyfleusterau addas.

Felly drwy ein strategaeth buddsoddi cyfalaf a ariennir gan y Loteri, aethom ati i greu rhwydwaith cenedlaethol o gyfleusterau arobryn sy'n trawsnewid bywyd diwylliannol eu hardaloedd. Mae llawer o'r rhain mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Er enghraifft:

- Galeri Caernarfon, sydd wedi bod yn cydweithio â Phartneriaeth Pobol Peblig ar gynllun dros y pum mlynedd diwethaf. Ei nod yw ei gwneud yn haws i bobl Peblig gymryd rhan yn y celfyddydau trwy gynnig nifer o leoedd rhad ac am ddim iddynt yn rhai o ddigwyddiadau Galeri

- Bu Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn cynnal gweithdai a chyrsiau, fel prosiect ffotograffiaeth ar thema bwyta'n iach gydag Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos, Penparcau, oedd yn gysylltiedig â Gŵyl Fwyd Canolfan y Celfyddydau

- Bu Oriel Mostyn wedi bod yn cynnal gweithdai cymunedol gyda *Thŷ Llywelyn*, darllediadau Radio Cymunedol Llandudno, Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Conwy, Gŵyl Llandudno a *Gwledd Conwy*

- Mae gan Chapter yng Nghaerdydd bartneriaeth â'r Cyfryngau a'r Celfyddydau yng Nglan-yr-Afon. Mae'n cynnal gweithdai ffilm mewn ysgolion cynradd lle mae plant o gymysgedd o gefndiroedd ethnig yn ne'r ddinas, ac yn cynnal dosbarthiadau Saesneg a Mathemateg ar ôl ysgol i'r cymunedau Somalaidd a Nigeriaidd

# 2 Man cychwyn newydd

**Mae  sawl ffactor sy'n awgrymu bod angen dod o hyd i ffordd newydd o fynd ati.**

- rydym wedi dysgu rhagor am anghenion a gobeithion ein pobl ifainc drwy'r gwaith y buom yn ei ariannu a'i gynnal

- cawsom lond dwrn o ymatebion pwysig i ymgynghoriad blaenorol. Roedd eu hansawdd yn well o lawer na'u nifer, ac roeddent yn cynnig syniadau newydd defnyddiol

- rydym wedi ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gawsom o Arolwg Omnibws y Plant (oedd yn edrych ar agweddau, presenoldeb ac ymgyfranogiad pobl ifainc) a'r ystadegau a gawsom gan ein rhwydwaith o sefydliadau refeniw ledled Cymru

- yn bwysicaf oll, bu i ni edrych yn ofalus ar ein cysylltiadau diweddar â'r byd addysg a'r celfyddydau mewn ysgolion wrth gwblhau ein Hadolygiad Buddsoddi (sef adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd yr ariennir y celfyddydau yng Nghymru).

Bu hyn o gymorth wrth fwydo ein strategaeth ddrafft, yr ymgynghorwyd arni yn Rhagfyr 2010. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion mewn dogfen ar wahân sydd ar gael ar ein gwefan: www.celfcymru.org.uk

Felly beth a ddysgwyd o'r ymarfer ymgynghori?

**Rydyn ni'n bendant y dylid hoelio ein strategaeth a'n gweithredoedd ar gyfer y dyfodol ar greadigrwydd plant a phobl ifainc.**

Am hynny, mae'r creawdwyr ifainc wrth galon ein strategaeth. Rydym am i'n plant fod ymhlith y bobl sy'n arwain ein diwylliant, am ein bod yn cydnabod eu cyfraniad unigryw at gymeriad a hunaniaeth y celfyddydau yng Nghymru.

**Dylai pawb gael cyfle i ymgyfranogi yn y celfyddydau.**

Rydym yn arbennig o awyddus i roi hwb i'r bobl sy'n dueddol o gael eu tangynrychioli yn y celfyddydau (gan gynnwys y grwpiau cymdeithasol-economaidd sydd fwyaf tebygol o gael eu heithrio, fel pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifol ethnig).

Felly rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru** – mae Cymru'n wlad ddwyieithog a byddwn ni'n sicrhau y gall ein plant a'n pobl ifainc ymgyfranogi yn y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn eu dewis iaith. Dywedodd y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod ar bobl ifainc angen rhagor o gyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er ein bod yn cydnabod cyfraniad Urdd Gobaith Cymru yn hyn o beth, dweud yr ydym fod angen rhagor o gyfleoedd i weithio gyda phobl broffesiynol yn y maes drwy gyfrwng y Gymraeg

- **cymryd Amrywiaeth a Gwahaniaeth i ystyriaeth** – mae Cymru'n wlad amlddiwylliannol ac mae angen i'r celfyddydau sydd ar gael i bobl ifainc adlewyrchu hynny. Mae gan blant a phobl ifainc Cymru wahanol sgiliau, galluoedd ac anghenion. Rhaid diwallu'r rhain

Ym maes y celfyddydau, mae gan Gymru hanes o chwalu rhwystrau a chodi pontydd rhwng gwahanol bobl, gwahanol ddiwylliannau a gwahanol alluoedd. Rhaid i hyn barhau er mwyn i'n pobl ifainc ennill gwell dealltwriaeth o'r byd

- **mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal ymgyfranogi** – dywedodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod angen rhoi rhagor o sylw i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol, yn enwedig i bobl ifainc anabl. Byddwn yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau sy'n cynyddu nifer y plant a'r bobl ifainc anabl sy'n ymgyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol

- **amddiffyn plant a phobl ifainc bregus, a darparu amgylchedd diogel i ymarfer y celfyddydau** – byddwn yn sicrhau bod yr holl sefydliadau a phrosiectau yn creu lleoedd diogel i bobl ifainc fwynhau'r celfyddydau. Rydym wedi llunio polisi amddiffyn plant newydd a byddwn yn rhannu arferion gorau â'r holl sefydliadau celfyddydol sy'n ceisio arian gennym

- **sicrhau bod rhagor o bobl ifainc yn cael cyfle i gyflawni eu potensial creadigol** – rydym yn cydnabod y gall pobl ifainc gyflawni eu potensial creadigol mewn ffyrdd di-ri. Mae ein cynlluniau'n cynnwys creu cyfleoedd amrywiol a gwahanol i bobl ifainc archwilio a darganfod eu creadigrwydd a gwneud eu gorau glas

- **sicrhau y gall ein plant fwynhau'r gorau o gynnyrch celfyddydol ein hartistiaid proffesiynol a sefydliadau'r celfyddydau** – byddwn yn cefnogi'r gwaith o greu a chynhyrchu celf mewn ffordd ysbrydoledig a pherthnasol sydd o ddiddordeb arbennig i blant a phobl ifainc ledled Cymru

- **cydnabod nad yw'r cyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau ac ymgyfranogi ynddynt wedi eu gwasgaru'n deg ar draws Gymru** – er na allwn sicrhau hygyrchedd i bawb ym mhob man, byddwn yn monitro effaith a chwmpas ein strategaethau ariannu. Mae rhannau sylweddol o'r wlad dan anfantais anghymesur, a byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn

# 3 Sut byddwn ni'n mynd ati yn y dyfodol

### Nid yw ein cenhadaeth wedi newid dim.

Byddwn yn parhau i gefnogi gweithgarwch sy'n mynd â phlant a phobl ifainc ar siwrnai a fydd yn eu hysbrydoli i archwilio eu creadigrwydd, yn eu herio i anelu at lefelau newydd o gyrhaeddiad ac yn eu cynorthwyo i ehangu eu gorwelion.

### Hoffem ganolbwyntio ar ddau fater penodol:


1. Cynorthwyo ein plant a'n pobl ifainc i ddatblygu eu doniau creadigol
2. Creu amgylchedd lle gellir adnabod y ddawn honno, ei hysbrydoli, ei meithrin a'i dathlu

Ein prif ffocws fydd gweld plant a phobl ifainc yn dysgu drwy brofiadau ymarferol, trwy gael eu hysbrydoli gan weithio ochr yn ochr â'n hartistiaid proffesiynol a sefydliadau'r celfyddydau.

Hanfod y mater yw rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifainc wneud eu gorau glas, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf, a chan ddathlu ac arddangos eu doniau creadigol.

### Drwy'r strategaeth, ein nod yw:

- Creu rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifainc ymgyfranogi yn y celfyddydau yn agosach at eu cartrefi
- Gosod y celfyddydau lle gallant wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl ifainc
- Cefnogi'r gwaith o greu'r gelfyddyd orau i bobl ifainc ei mwynhau
- Gosod celfyddyd a chreadigrwydd wrth galon addysg a siwrnai dysgu'r plant
- Datblygu artistiaid y dyfodol
- Cynnwys plant a phobl ifainc yn y gwaith o ddatblygu ein cynlluniau ymhellach



3G's Kinectics Seniors – Grŵp Dawns Stryd Cymunedol, Noson Allan
(llun: Ysgol Uwchradd Esgob Hedley)

## Caiff ein plant a'n pobl ifainc y cyfle i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol sy'n berthnasol, yn gyfoes ac yn gyffrous.

Mae'r celfyddydau wedi chwarae rhan annatod yn y gymdeithas ers tro byd. Dros y canrifoedd, mae artistiaid wedi adlewyrchu, cwestiynu a llywio datblygiad diwylliant a chymdeithas. Roedd y traddodiadau sydd bellach yn gonglfeini i'n treftadaeth ddiwylliannol yn newydd ac yn heriol yn eu dydd. A'r artist - ym mhob math o gelfyddyd - sy'n ailddyfeisio mynegiant diwylliannol sy'n briodol i bob cyfnod. Cododd y datblygiadau mwyaf yn y byd o brosesau creadigol, ac mae'n eironig felly nad yw'r rhan fwyaf o bobl wedi cael eu dysgu sut i greu. Y peth hanfodol yn hyn o beth fydd dysgu i fanteisio ar botensial creadigol a masnachol technolegau newydd.

## Yn y byd sydd ohoni, os nad ydych chi'n addasu i'r technolegau newydd, cewch eich gadael wrth ochr y ffordd.

Mae technoleg yn datblygu'n ddychrynllyd o gyflym yn ein hoes, ond nid yw cyflymdra'r datblygiadau'n peri braw i'r rhan fwyaf o bobl ifainc. Wedi'r cyfan, mae'n siŵr ein bod ni i gyd yn adnabod person ifanc sy'n defnyddio technoleg ffilmio i greu creu eu hail, trydedd neu bedwaredd ffilm, neu fand amatur sy'n defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol i hyrwyddo a gwerthu eu sengl ddiweddaraf. Os ydym am gadw'r celfyddydau yn berthnasol i bobl ifainc, mae angen iddynt ddeall sut i weithio'n hyderus yn y byd newydd hwn.

## Dylai cymdeithas ddemocrataidd roi cyfle i bawb lwyddo ar sail eu cryfderau a'u galluoedd.

Mae agor y drws i bobl ifainc gymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant, neu fanteisio arnynt, yn anhepgor yn hyn o beth. Gall cyrchu diwylliant godi ymwybyddiaeth am rannu'r un dreftadaeth ddiwylliannol a meithrin dinasyddiaeth sy'n agored i'r byd i gyd. Drwy ymwneud â gweithgareddau diwylliannol, gall plant fynegi eu hegni creadigol, datblygu'n bersonol a theimlo eu bod yn perthyn i gymuned.



Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

# 4 Beth ydyn ni'n bwriadu ei wneud? Ein prif feysydd gweithredu

| | |
|---|---|
| Tlodi Plant ac Agenda'r Celfyddydau - gwella hygyrchedd | • Byddwn yn creu rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifainc fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau<br>• Byddwn yn herio'r rhwystrau sy'n atal pobl ifainc rhag ymgysylltu â'r celfyddydau<br>• Byddwn yn creu rhagor o gyfleoedd i bobl ifainc gymryd rhan yn y celfyddydau yn nes at eu cartrefi<br>• Byddwn yn gosod y celfyddydau lle gallant wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl ifainc |
| Celfyddydau Cyfareddol | • Byddwn yn buddsoddi mewn ansawdd gan gefnogi'r gelfyddyd orau er mwyn i'n plant a'n pobl ifainc ei mwynhau |
| Y celfyddydau mewn ysgolion | • Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol er mwyn datblygu strategaeth fwy cyson i hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau mewn ysgolion |
| Uchelgeisiau creadigol | • Byddwn yn datblygu artistiaid y dyfodol, gan helpu pobl ifainc i wireddu eu doniau creadigol<br>• Byddwn yn cefnogi mentrau ymarferol sy'n helpu pobl ifainc sydd am ddilyn gyrfa greadigol ym maes y celfyddydau |
| Datblygu partneriaethau | • Byddwn yn meithrin cysylltiadau gwell â'r asiantaethau a'r strategaethau a all ein helpu i gyflawni ein strategaeth |
| Lleisiau Plant a Phobl Ifainc | • Byddwn yn cynnwys plant a phobl ifainc yn y broses o fonitro, adolygu a blaenoriaethu'r gwaith yr ydym yn ei gefnogi a'i gyflawni |

## Cefnogi ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu ein pobl ifainc mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd wedi dadrithio fwyaf.

Mae llawer o bobl ifainc yn teimlo eu bod ar y cyrion, ac yn methu ag ymdopi â dysgu ffurfiol am bob math o resymau. Maent yn teimlo eu bod wedi eu heithrio o'u cymunedau a'u bod ar wahân i'w cyfoedion. Mae llawer o'r bobl hyn yn eu ffeindio'u hunain mewn bywydau heb fawr o ystyr na phwrpas, a peth anodd yw dod yn ôl o'r dibyn.

Profwyd dro ar ôl tro bod cymryd rhan yn y celfyddydau yn gallu agor gwahanol ddrysau sy'n galluogi'r bobl ifainc hyn i wireddu eu potensial a chychwyn siwrnai i fywyd gwahanol. Mae angen i ni sicrhau bod prosiectau celfyddydol yn dal i fod ar gael ar gyfer y bobl ifainc hyn, a'n bod ni'n datblygu'r artistiaid sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i weithio ar brosiectau o'r fath.

## Gosod y celfyddydau wrth galon strategaethau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant.

Heddiw yng Nghymru mae tua 200,000 plant sy'n byw mewn tlodi. Yn 2010 pasiodd Llywodraeth Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) sy'n gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus Cymru i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â thlodi plant.

Un o 13 o Fras Amcanion y Mesur Plant a Theuluoedd yw

**“lleihau anghydraddoldebau mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant).”**

Rydym yn cefnogi'r mesur hwn i'r carn. Nod ein strategaeth yw gwneud y celfyddydau mor hygyrch â phosibl i holl blant a phobl ifainc Cymru. Rydym yn cydnabod bod tlodi'n rhwystr a'i bod yn bosibl bod llawer o blant a theuluoedd Cymru'n cael eu heithrio rhag profiadau celfyddydol a allai newid eu bywydau.

Bydd dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ddifreintiedig yn flaenoriaeth arbennig i ni. Drwy brosiectau ymchwil weithredol wedi'u targedu, byddwn yn ymdrechu i ddod o hyd i strategaethau effeithiol a phendant y gellir eu hefelychu ar raddfa ehangach.

Er y byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y prif amcan a grybwyllwyd uchod, gwyddwn y gall y celfyddydau chwarae rhan bwysig wrth helpu i gyflawni amcanion craidd eraill y Mesur Plant a Theuluoedd. Yn eu plith mae:

- Helpu pobl ifainc i ymgyfranogi'n effeithiol mewn addysg a hyfforddiant
- Helpu pobl ifainc i ymgyfranogi mewn ffordd effeithiol a chyfrifol ym mywydau eu cymunedau
- Helpu pobl ifainc i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth

Mae rhagor o fanylion am sut yr awn i'r afael â thlodi plant mewn dogfen sy'n cyd-fynd â'r strategaeth hon, sef Tlodi Plant ac Agenda'r Celfyddydau 2011.

**Mae gan blant a phobl ifainc safbwyntiau cryf am leoedd celfyddydol traddodiadol.**

Trwy ein hymgynghoriad cawsom wybod bod llawer o bobl ifainc yn teimlo nad yw'r lleoedd hyn yn berthnasol iddynt, neu nad ydynt yn cynnig y math o weithgareddau, digwyddiadau neu berfformiadau y maent yn ymddiddori ynddynt.

Am hynny, hoffem ddatblygu rhagor o leoedd lle gall pobl ifainc deimlo'n gyffyrddus – yn creu ac yn rhannu eu celfyddyd eu hunain. Mae nifer o ddatblygiadau bychain eisoes ar y gweill mewn gwahanol rannau o Gymru.

Rydym yn awyddus i'w cefnogi. Rhaid i ni ystyried sut i ddatblygu lleoedd 'rhithwir' a sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd mewn ffyrdd dychmygus.

**Byddwn yn gweithio gyda darparwyr y celfyddydau i ddatblygu cynnyrch sy'n fwy addas i deuluoedd yn ein lleoliadau celfyddydol.**

Mae angen i ni gynnig perfformiadau a digwyddiadau sy'n fwy addas i deuluoedd a sicrhau bod ein theatrau a'n lleoliadau celfyddydol yn fannau lle gael pobl ifainc deimlo'n hapus ac yn gyffyrddus.

- Byddwn yn gweithio gyda'n rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau refeniw i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol ar gael yn rhad ac am ddim ac am bris gostyngol i deuluoedd ar incwm isel. Byddwn yn pennu ac yn monitro targedau o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifainc mewn cymunedau difreintiedig

- Byddwn yn darparu *Cyrraedd y Nod* mewn partneriaeth ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac eraill. Rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifainc sy'n wynebu'r posibilrwydd o beidio â chyflawni eu potensial mewn ysgolion, colegau a gweithleoedd yw hon ac fe'i hariennir gan gronfa Gydgyfeiriol Ewrop. Rydym wedi cael cadarnhad bellach y byddwn yn parhau i gael yr arian o dan y rhaglen tan 2013 a byddwn yn dyfarnu'r cylch cyntaf o dendrau i'n partneriaid yn gynnar yn hydref 2011

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n targedu pobl ifainc mewn perygl a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, ac yn ehangu'r rhain. Byddwn yn adeiladu ar ein rhaglen lwyddiannus gyda throseddwyr ifainc, Celfyddydau Sblash Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cydweithio cryfach rhwng yr asiantaethau sy'n cynorthwyo'r bobl ifainc hyn a'r sefydliadau a ariannwn ar lefel leol, a hynny er mwyn cynorthwyo pobl ifainc sy'n symud o'r celfyddydau wedi eu targedu'n benodol i brif ffrwd y celfyddydau

- Drwy raglen Gyfalaf y Loteri, byddwn yn cefnogi datblygiad lleoedd newydd ac yn adfywio'r cyfleusterau presennol er mwyn creu mannau ar gyfer y celfyddydau lle gellir meithrin creadigrwydd pobl ifainc. Mae hi'n rhaglen uchelgeisiol, ond yn un a fydd, yn ein barn ni, yn bwysig wrth ddylanwadu ar y ffordd y mae ein pobl ifainc yn mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt

## Cynorthwyo amrywiaeth o artistiaid a sefydliadau i greu a chynhyrchu gwaith artistig o safon ar gyfer pobl ifainc.

Rydym am ysbrydoli ein pobl ifainc, a rhoi profiadau celfyddydol iddynt a fydd yn aros yn eu cof am byth. Rydym am iddynt brofi celfyddydau gafaelgar, heriol a chyfoes sy'n berthnasol ac yn cyd-daro â'u profiadau bywyd.

Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na swmp, gan sicrhau bod y bobl ifainc yn cael profi'r gorau sydd yna. Rydym yn disgwyl safonau uchel gan ein hartistiaid – gwaith sy'n torri tir newydd, yn llawn dychymyg ac yn ysbrydoledig wedi ei gynhyrchu gan artistiaid arloesol o bob maes celfyddydol.

Rydym am gael cynnyrch sy'n adlewyrchu byd cyfnewidiol profiadau diwylliannol pobl ifainc, sy'n cyd-daro â'u ffordd o weld y byd a. Cynnyrch y gallant ei fwynhau a'i werthfawrogi mewn amrywiaeth o gyfryngau gwahanol, rhai byw a rhai rhithwir.



## Cynorthwyo artistiaid i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gynnig y profiadau gorau i bobl ifainc.

Mae gan lawer o artistiaid ddawn reddfol i ysbrydoli a chyffroi pobl ifainc. Mae eraill yn gwireddu canlyniadau llawn mor llwyddiannus drwy sgiliau a thechnegau y maent wedi eu meithrin dros y blynyddoedd. Hoffem weld pobl ifainc yn mwynhau profiadau cyffrous, ysbrydoledig a diogel ym maes y celfyddydau. Byddwn ni'n darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sy'n helpu i adnabod arferion da a'u lledaenu.

- Byddwn yn gofyn i bob un o'n sefydliadau refeniw ddatblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n cynnwys gwaith ar gyfer, gyda a chan blant a phobl ifainc
- Byddwn yn ariannu cyfleoedd hyfforddi er mwyn i artistiaid ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth
- Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth, profiadau a sgiliau

*Beyond the Stars*, Bombastic
(llun: Dave Daggers)

## Byddwn yn cynorthwyo ac yn cydweithio â'r bobl hynny sy'n gyfrifol am ddatblygu'r celfyddydau yn ein hysgolion, ein colegau a'n sefydliadau addysg uwch.

Byddwn yn gweithio'n strategol gydag ysgolion a'r sectorau addysg bellach ac uwch a chyda'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau am ddatblygiadau dysgu yng Nghymru.

Mae'r Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cynnig posibiliadau di-ri i gyflwyno plant i'r celfyddydau, ac i roi cyfle i'r celfyddydau effeithio ar y ffordd y mae plant yn tyfu ac yn dysgu. Fodd bynnag, wrth i blant dyfu, gwyddom eu bod yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain o ran sut, ac ym mha fodd y maent yn ymgysylltu â'r celfyddydau. Dyma'r adeg pan gall popeth newid. Gwyddom o brofiad bod cysylltiad plant 9-14 oed â'r celfyddydau mewn ysgolion yn lleihau. Felly fel y maen nhw'n dechrau archwilio eu diddordebau, eu creadigrwydd a'u doniau eu hunain, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen eu bod yn cael manteisio ar gyfleoedd priodol i archwilio'r holl fanteision y mae'r celfyddydau'n eu cynnig.

Mae llawer o waith da yn cael ei wneud eisoes, ond rydym am sicrhau bod prosiectau gydag artistiaid a chwmnïau'r celfyddydau yn cael digon o adnoddau a'u bod yn dod yn rhan reolaidd o brofiadau disgyblion ysgol. Rydym am i ysgolion fod wrth galon eu cymunedau gan eu sbarduno a'u cymell, ac rydym am iddynt gael cydnabyddiaeth ac 'achrediad' am ansawdd eu haddysg greadigol.

Rhan greiddiol o'r gwaith hwn fydd datblygiad parhaus ArtsPlus - sef menter ar y cyd ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Rhaglen cymell a gwobrwyo yw hon sy'n cydnabod ymroddiad ysgolion i'r celfyddydau. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu adnodd ar y we ar gyfer ysgolion (gan ddarparu esiamplau o arferion da, cyfleoedd datblygu i athrawon a gwybodaeth am weithio gydag artistiaid mewn ysgolion). Ein gobaith yw y gellir troi hyn yn siop-un-stop ar gyfer gwybodaeth am y celfyddydau ac addysg - fel yr awgrymodd nifer o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad.

## Byddwn yn annog athrawon i feithrin a datblygu eu potensial creadigol eu hunain

Mae'r athrawon gorau'n greadigol iawn. Yn wir, bydd llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant – neu wedi gweithio - fel artistiaid. Gall llawer ohonom ag angerdd oes dros y celfyddydau olrhain hyn yn ôl i athro neu athrawes ysbrydoledig a sbardunodd ac a ddatblygodd y fflam hwnnw.

Ond yn aml iawn, yng nghanol holl brysurdeb y diwrnod ysgol ychydig iawn o gyfle sydd yna i athrawon creadigol feithrin a datblygu eu dychymyg artistig. Ein nod yw newid hyn.

Hoffem gynnal menter beilot newydd gydag addysg uwch a byd y celfyddydau sy'n ail-fuddsoddi yng nghreadigrwydd ein hathrawon.

- Byddwn yn sefydlu Concordat – sef cytundeb ffurfiol – ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Rydym ar gam cynnar yn y broses o drafod yr hyn a fydd yn y cytundeb, ond o ran y celfyddydau mewn ysgolion byddwn:
  - yn cwblhau Arts Plus ac yn ei roi ar waith
  - yn edrych ar y ddarpariaeth o ran y celfyddydau yn y cwricwlwm a'r ffordd orau o gyflwyno hyn
  - yn gweithio gyda'n partneriaid a'n cydweithwyr i roi ar waith argymhellion yr adolygiad o addysg gerddorol, a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru
- Byddwn yn cynorthwyo ein hartistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i ddatblygu gwaith i gyfoethogi a chydategu addysg a dysg pobl ifainc, ac i gynhyrchu a chyflwyno profiadau celfyddydol y gellir eu mwynhau mewn lleoedd ffurfiol ac anffurfiol, o ysgolion i ganolfannau ieuenctid, theatrau a lleoliadau awyr agored, a hynny trwy ein cynlluniau a ariennir gan y Loteri a'n portffolio o sefydliadau refeniw
- Byddwn yn gweithio gyda CBAC a Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o gyflwyno rhagor o lenyddiaeth a thestunau Cymreig cyfoes i'r cwricwlwm
- Byddwn yn dod o hyd i bartneriaid priodol i archwilio rhaglen beilot i ddatblygu creadigrwydd athrawon. Rydym yn disgwyl cynnwys cydweithwyr o'r maes Addysg Uwch, athrawon, artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau yn hyn o beth




Gweithdy paentio, Posiect Plant Llantilio

## Cefnogi dawn ac uchelgais

Rhaid i artistiaid ifainc dawnus Cymru gael cyfleoedd i weithio gyda phobl broffesiynol o fri mawr ym maes y celfyddydau a chael profiad o berfformio gyda'u cyfoedion ar lefel genedlaethol. Dylem fod yn falch o ddoniau ein pobl ifainc a chefnogi gweithgareddau sy'n dangos eu doniau i bobl Cymru a'r byd.

Rydym am greu hinsawdd lle gellir meithrin a datblygu dawn, hyder ac uchelgais. Rydym am fuddsoddi mewn strategaethau clir ac arloesol sy'n helpu i gynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid creadigol a pherfformio ynghyd â chynulleidfaoedd celfgarol y dyfodol. Amlygodd ein hymgynghoriad bod yna ddiffyg cyfleoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r celfyddydau gweledol.

- Byddwn yn ariannu ensembles cerdd, theatr a dawns Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru er mwyn cynnal rhaglen o weithdai, preswylfeydd a pherfformiadau sy'n galluogi plant i ddatblygu eu doniau trwy gydweithio â'u cyfoedion ac â phobl broffesiynol sy'n fawr eu bri ym maes y celfyddydau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol
- Byddwn yn cefnogi Llenyddiaeth Cymru i ddatblygu Sgwadiau Sgwennu rhanbarthol ledled Cymru
- Byddwn yn ehangu'r Criw Celf, sef rhaglen beilot lwyddiannus ar y cyd â Chyngor Gwynedd sy'n darparu cyfleoedd i artistiaid gweledol ifainc dawnus y tu allan i'r ysgol
- Byddwn yn cydweithio ag Asiantaeth Ffilm Cymru wrth ddarparu'r Clwb Ffilmiau newydd, a fydd yn dod ag amrywiaeth o ffilmiau i ysgolion er mwyn i bobl ifainc eu mwynhau, eu gwerthfawrogi a'u hadolygu. Bydd y clybiau'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifainc ddysgu hefyd am gynhyrchu ac adolygu ffilmiau ac am drefnu digwyddiadau
- Byddwn yn ehangu cynllun Hyrwyddwyr Ifainc Noson Allan sy'n galluogi grwpiau o bobl ifainc i hyrwyddo sioeau proffesiynol mewn neuaddau cymuned neu ysgolion



Sbarc!, Galeri Caernarfon

## Darparu cyfleoedd i'n pobl ifainc mwyaf dawnus gychwyn gyrfa ym myd y celfyddydau neu i gychwyn ar daith a fydd yn eu tywys i yrfa o'r fath

Mae diwydiannau celfyddydol a chreadigol ymhlith y sectorau sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain, ond mae pobl ifainc yn dal i'w chael hi'n anodd dod o hyd i gyflogaeth yn y maes. Weithiau dim ond drwy gysylltiadau neu weithio'n wirfoddol heb dâl y gellir cychwyn arni.

Mae'r syniad o gynnig prentisiaethau fel ffordd effeithiol o gychwyn gyrfa a dysgu crefft yn un sy'n codi eto ar draws yr holl ddiwydiannau. Mae'n syniad sy'n cael ei hyrwyddo hefyd gan ein partneriaid yn Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, sef y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad a hyfforddiant ym myd y celfyddydau. Cododd y gallu i ddatblygu gyrfa mewn diwydiannau celfyddydol a chreadigol fel blaenoriaeth bwysig yn ein hymgynghoriad â phobl ifainc. Roedd diffyg prentisiaethau ar draws y diwydiant yn fater oedd o bwys iddynt hefyd.

Dywedodd y bobl ifainc wrthym fod angen i ni wneud rhywbeth i wella ansawdd ac argaeledd y cyngor am yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol. Plant a phobl ifainc Cymru yw artistiaid y dyfodol, ac mae'n amlwg bod angen i ni ystyried a oes digon o gyngor ar gael iddynt i'w helpu i wireddu eu huchelgais.

Mae ar y celfyddydau angen yr egni a'r syniadau newydd y gall pobl ifainc eu cynnig, ac mae angen i'r bobl ifainc eu hunain gael y cyfle i ddechrau gyrfa ym maes y celfyddydau. Rydym am weld diwydiant blaengar a chanddo ymroddiad i feithrin sgiliau at y dyfodol – boed yn artistig neu'n dechnegol, yn weinyddol neu'n rheoli. Mae angen i ni greu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, technegwyr ac arweinwyr i gadw'r celfyddydau'n fyw ar gyfer yfory.

- Byddwn yn gweithio gyda Sgiliau Diwylliannol Creadigol , y sefydliadau a ariannwn ac eraill i ddatblygu prentisiaethau a rhaglenni eraill sy'n hwyluso'r ffordd i bobl ifainc ymuno â'r gweithlu celfyddydol.
- Byddwn yn datblygu perthynas waith mwy cynhyrchiol â Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod pobl ifainc yn gallu cael cyngor gwell am yrfaoedd yn y diwydiannau celfyddydol a chreadigol
- Byddwn yn meithrin cysylltiadau cryfach â'n cydweithwyr yn y meysydd addysg bellach ac uwch er mwyn dod o hyd i ffyrdd i bobl ifainc symud o addysg a dysg i swyddi ym maes y celfyddydau
- Byddwn yn gweithio gyda'n portffolio o sefydliadau refeniw i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys lleoliadau, mentora a phrentisiaethau

## Ni allwn symud ymlaen ar ein pennau ein hunain.

Er mwyn i ni lwyddo i gyflawni ein nodau, rhaid i ni ddod o hyd i lwybr i'w rannu â'n partneriaid. Drwy gydweithio, gallwn geisio cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd pobl ifainc unwaith eto.

Mae nifer o sefydliadau a ddylai fod yn bartneriaid allweddol i ni, sef:

- **Llywodraeth Cymru** – mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau holl blant a phobl ifainc Cymru. Mae angen i ni gydweithio'n agos â hi er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried swyddogaeth y celfyddydau wrth lunio polisïau a gweithredoedd newydd, a'i bod yn elwa ar ein harbenigedd a'n gwybodaeth. Mae arnom angen ei chefnogaeth hefyd, o ran cyllid a chyfarwyddebau polisi, er mwyn ein helpu i barhau i sicrhau bod y celfyddydau ar gael ledled Cymru

- **Awdurdodau Lleol** – mae gan nifer o'r awdurdodau lleol strategaethau clir ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifainc. Mae yna wersi y gallem ddysgu ganddynt, ac yn wir mae sawl un wedi lleisio'r awydd i gydweithio'n agos â ni ac i gydweddu ein gwahanol strategaethau. Rydym yn ymwybodol iawn o gefnogaeth yr awdurdodau lleol, ar ffurf cyllid a chymorth arall, ac er mwyn llwyddo, mae angen i ni feithrin cysylltiadau gwaith cryfach â nhw

  Bu'n amlwg iawn yn yr ymgynghoriad bod angen i ni ddod i adnabod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifainc a'r consortia Ymgyfranogi Lleol yn well. Mae angen i ni sicrhau bod pobl yn cael gwybod am y celfyddydau ieuenctid sydd ar gael yn lleol a'u bod yn cael eu trefnu fel y gall pobl ifainc fanteisio ar bopeth sydd ar gael. Soniodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad am lwyddiant ein Partneriaeth Celfyddydau Ieuenctid Strategol, oedd yn darparu cyllid ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn galluogi iddynt weithio gyda'u plant a'u pobl ifainc i ddatblygu strategaethau lleol a phendant ar gyfer celfyddydau ieuenctid - mae'n bosibl y dylwn edrych ar hyn eto

- **Estyn a Chydbwyllgor Addysg Cymru** – mae'r partneriaid hyn yn bwysig i'n galluogi ni i gyflawni ein huchelgais o osod y celfyddydau a chreadigrwydd wrth "galon" pob ysgol yng Nghymru. Rydym am weithio tuag at greu profiad dysgu lle mae celfyddydau Cymreig gan artistiaid Cymreig wrth galon y cyfan hefyd

- **Colegau a Phrifysgolion** – roedd diddordeb mawr gan ein pobl ifainc mewn darllen ein drafft o ran sut yr hoffem eu cynorthwyo i fynd yn artistiaid y dyfodol. Rhaid i ni feithrin cysylltiadau cryfach â'n colegau a'n Prifysgolion er mwyn llwyddo yn hyn o beth

- **Comisiynydd Plant Cymru** – mae gennym ymroddiad cadarn i hawl plant a phobl ifainc i gymryd rhan yn y celfyddydau. Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw sylfaen ein strategaeth. Bydd angen i ni weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i wireddu hyn

- **y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** – rwy weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gallwn sicrhau bod y bobl ifainc mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a allai newid eu bywydau

- **ein hartistiaid a sefydliadau'r celfyddydau** – mae gan ein hartistiaid y wybodaeth a'r sgiliau i agor drws y dychymyg, i ysbrydoli, sbarduno, herio, a chyffroi

- **ac mae yna ragor** – mae angen i ni feithrin gwell dealltwriaeth o ran sut y gallwn ymgysylltu â'r gwaith y mae sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill yn ei wneud i gynyddu'r cyfleoedd celfyddydol sydd ar gael i bobl ifainc. Byddwn yn cychwyn trafodaethau newydd ac yn parhau â'n trafodaethau gydag Urdd Gobaith Cymru, y Clybiau Ffermwyr Ifainc, y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a statudol, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth y Tywysog

- Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu partneriaethau celfyddyd lleol a fydd yn cydweithio er mwyn cynnig amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol ar gyfer eu pobl ifainc. Byddwn yn cychwyn trwy edrych eto ar ein Partneriaeth Celfyddydau Ieuenctid Strategol ac yn ystyried a ellid adfywio'r model hwn

- Byddwn yn datblygu cysylltiadau gwaith cryfach â'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifainc lleol. Gwyddom fod y cyrff hyn yn hanfodol i'r gwaith o gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant, a bod rhaid i ni feithrin cysylltiadau â nhw ledled Cymru o'r herwydd


Cynyrchiadau UCAN

**Mae angen i ni wrando ar beth sydd gan ein plant a'n pobl ifainc i'w ddweud am yr hyn yr hoffent ei gael gan gelfyddydau Cymru.**

Roedd clywed beth oedd gan blant a phobl ifainc i'w ddweud am eu profiadau o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn rhan bwysig o'n hymgynghoriad diwethaf. Mae angen i ni barhau i siarad â nhw a gwrando ar eu safbwyntiau. Rydym am i blant a phobl ifainc Cymru ein helpu ni i fonitro, adolygu ac ail-flaenoriaethu'r gwaith yr ydym yn ei ariannu ac yn ei ddarparu. Sefydlu'r trefniadau ar gyfer hyn fydd ein blaenoriaeth ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth.

**Sicrhau ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth.**

Mae angen i ni fonitro'r hyn a wnawn. Bydd angen i ni gyflawni gwaith ymchwil i weld a oes rhagor o blant yn cymryd rhan yn y celfyddydau go iawn. Mae angen i ni gael gwybod a yw'r gweithgareddau celfyddydol y maent yn cymryd rhan ynddynt yn gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau. Am hynny, byddwn yn parhau i ariannu gwaith ymchwil ac ymarferion mapio sy'n datgelu faint o bobl ifainc sy'n mynychu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, a pha wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i'w bywydau.

- Byddwn yn parhau i gomisiynu gwaith ymchwil sy'n mesur ymgyfranogiad plant a phobl ifainc yn y celfyddydau yng Nghymru, a'u hagweddau
- Byddwn yn datblygu cynllun i werthuso'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein hamcanion
- Byddwn yn sefydlu amrywiaeth o ddulliau i barhau i ymgynghori â phlant a phobl ifainc ledled Cymru



Cynllun Hyrwyddwyr Ifanc Noson Allan
(llun: Hazel Hannant)